**CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL 2025-2030**

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn deillio o'r gwaith a wnaed gan CBCDC, mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru (PDC), fel cais i'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol mewn addysg uwch. Ar hyn o bryd mae gan PDC a CBCDC nod Siarter Cydraddoldeb Hiliol (REC) Efydd. Mae'n eistedd ochr yn ochr, ac yn cyd-fynd, â'n Strategaeth Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn (DEIB) cyhoeddedig a'i chynllun gweithredu.

| **Cyf. REC** | **CYNLLUN** | **GWEITHREDU ALLWEDDOL** |
|---|---|---|
| **Ein Hymrwymiadau i Fyfyrwyr** | | |
| 2.2.1 | Gwella llythrennedd hiliol myfyrwyr i gynyddu cysur a hyder wrth siarad am hil | Adolygu canllawiau iaith gynhwysol CBCDC, ynghyd â llwybrau ar gyfer ymgysylltu â hwy; adolygu gweithdai hyfforddiant pwrpasol a gynhaliwyd hyd yma a sut mae'r math hwn o waith wedi'i ymgorffori yn y broses ymsefydlu a'r cwricwlwm; parhau i ymgorffori hyfforddiant, monitro a gwerthuso cynnydd. |
| | Profi ac ymgorffori fforymau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer deialog rhwng myfyrwyr a staff ynghylch hil a chynhwysiant | Canolbwyntio a dyfnhau trafodaeth mewn Byrddau Cyrsiau ynghylch cwestiynau/materion penodol sy'n ymwneud â hil a chynhwysiant.<br>Cyd-ddatblygu a phrofi fforymau anffurfiol penodol ar gyfer myfyrwyr mwyafrif byd-eang i drafod materion sy'n berthnasol i "berthyn", wedi'u hwyluso gan aelod o staff/ymarferydd annibynnol sydd â phrofiad bywyd o'r maes. |
| 2.3.1 | Parhau i gyfathrebu mecanweithiau gwrth-fwlio ac aflonyddu | Defnyddio deunyddiau ac asedau ymgyrch Adrodd a Chymorth Culture Shift a theilwra'r rhain ar gyfer CBCDC.<br>Cynllunio ymgyrchoedd fel sy'n briodol yn ystod y flwyddyn academaidd. |
| 2.3.2 | Cynyddu hyder mewn defnyddio Adrodd a Chymorth a mecanweithiau adrodd eraill CBCDC | Cynyddu tryloywder prosesau adrodd trwy gyhoeddi dadansoddiad tueddiadau Adrodd a Chymorth blynyddol (staff a myfyrwyr) a thueddiadau canlyniadau i gau'r ddolen ar adroddiadau.<br>Defnyddio data Adrodd a Chymorth i ddatblygu ymgyrchoedd wedi'u targedu lle nodir tueddiadau. |
| 4.2.1 | Deall yn well brofiad myfyrwyr rhyngwladol ar bob lefel, eu hymdeimlad o berthyn ac ymdrin â materion sy'n codi | Gwerthuso ein cefnogaeth bresennol i fyfyrwyr rhyngwladol trwy gasglu adborth ganddynt; nodi meysydd i'w gwella o ran darpariaeth cefnogaeth a gwella eu teimlad o berthyn ar draws elfennau addysgu, dysgu a gweithgareddau cymdeithasol. |
| 4.1.2 | Deall ac ymdrin ag unrhyw ganlyniadau derbyniadau gwahaniaethol (yn seiliedig ar ddata gwell) | Cynnal adolygiad o brosesau derbyn i ddeall a oes anghydraddoldebau yn y broses.<br>Datblygu camau gweithredu yn unol â hynny/cynllunio camau i fynd i'r afael â hyn, er mwyn cynyddu amrywiaeth poblogaeth myfyrwyr CBCDC. |

| Ein Hymrwymiadau i Staff | | |
|---|---|---|
| 1.4 | Sicrhau atebolrwydd a chydnabyddiaeth uwch arweinyddiaeth ac unigol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Sicrhau atebolrwydd uwch aelodau staff am gydraddoldeb hiliol a gweithrediad y cynllun gweithredu a dysgu am, cyfathrebu ac arwain ar gydraddoldeb hiliol.<br>Adolygu effeithiolrwydd presennol a'r defnydd o amcanion DEIB fel rhan o Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad blynyddol. |
| 2.2.1 | Gwella llythrennedd hiliol staff i gynyddu cysur a hyder wrth siarad am hil | Datblygu darpariaeth ar-lein ar gyfer hyfforddiant DEIB gorfodol i staff fel rhan o broses ymsefydlu.<br>Parhau i weithio gyda Conservatoires UK i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant ar-lein ar gyfer tiwtoriaid sy'n cael eu talu fesul awr sy'n gweithio ar draws Conservatoires - gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant gwrth-hiliaeth a chynhwysiant. |
| 2.2.2 | Galluogi staff i ymgorffori gwrth-hiliaeth yn eu rolau | Myfyrio ar, a gwerthuso, cyfranogiad staff mewn gweithdai hyfforddiant a gynhaliwyd yn flaenorol, gan ystyried sut mae staff yn newid/addasu eu hymddygiad a/neu'n newid systemau a phrosesau o fewn cylch gwaith eu rolau; gwneud argymhellion ar gyfer opsiynau hyfforddiant pellach.<br>Nodi prosesau lle gellir ymgorffori disgwyliadau gwrth-hiliaeth (ar gyfer staff - o recriwtio, ymsefydlu a pharhau trwy Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad, addysgu a dysgu ac ar gyfer myfyrwyr - ymsefydlu, cwricwlwm).<br>Datblygu adnoddau perthnasol ar gyfer staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol ar sut i ymgorffori DEIB a gwrth-hiliaeth yn eu rolau. |
| 3.3 | Cynyddu cyfraddau datgelu staff yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil | Adolygu'r sefyllfa sylfaen a dealltwriaeth o rwystrau i ddatgelu. Datblygu cynllun cyfathrebu i gefnogi ymgysylltiad. |
| 2.3.3 | Datblygu a gweithredu ymhellach ddull CBCDC ar gyfer arfer adferol | Adolygu lefelau presennol o arbenigedd ar draws staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol a nodi bylchau ac amcanion.<br>Cyflwyno a gwerthuso hyfforddiant pellach. |
| **Ein Hymrwymiadau Cydraddoldeb i Gymunedau** | | |
| 3.1 | Gwella ymgysylltiad staff a myfyrwyr mewn cydraddoldeb hiliol | Datblygu, gweithredu a gwerthuso cynllun ymgysylltu staff a myfyrwyr gwrth-hiliol. |
| 3.2 | Ymgorffori a chyflwyno gwaith allgymorth cydraddoldeb hiliol ac amrywio gweithgareddau recriwtio myfyrwyr o fewn cytundebau cydweithredol cymunedol | Ymgorffori cyfleoedd mewn rhaglenni addysgu a dysgu i fyfyrwyr weithio ochr yn ochr â chymunedau amrywiol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol myfyrwyr. |
| 2.1<br><br>2.3.1 | Parhau i ymgorffori asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn polisïau a phrosesau<br><br>Parhau i gyfathrebu mecanweithiau gwrth-fwlio ac aflonyddu | Treialu ac addasu proses asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb newydd PDC.<br><br>Adolygu a diweddaru'r ddogfen a'r negeseuon 'Man Parchus', a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithdai Tonic a'r deunydd ymsefydlu a gyflwynwyd. |
| | Adolygu addunedau presennol mewn rhaglenni creadigol i lywio set newydd o ymrwymiadau | Yn cyd-fynd â'r rhain, datblygu dull rhaglennu creadigol ar gyfer yr Hen Lyfrgell gyda chynllunio o 2027 ymlaen. |
| | Cwblhau cytundebau cydweithredol gydag amrywiaeth o sefydliadau cymunedol perthnasol | Cytuno ar fframwaith llogi/defnyddio mannau, a'i ymgorffori mewn cytundeb cydweithredol gyda phob sefydliad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ymgorffori a chyflwyno ymgysylltu cydraddoldeb hiliol ac amrywio gweithgareddau recriwtio myfyrwyr o fewn cytundebau cydweithredol.<br>Sefydlu Gweithdai Blasu ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yn canolbwyntio ar Hil ac Anabledd yn yr Hen Lyfrgell a'u cyflwyno'n flynyddol. |
| **Egwyddorion Sylfaenol** | | |
| 1.1 | Sicrhau aliniad strategol parhaus ac atebolrwydd ar gyfer gwrth-hiliaeth a rhoi cynllun gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hiliol ar waith | Cyhoeddi cynllun gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hiliol.<br>Adolygu cylch gwaith, aelodaeth a chylch gorchwyl pwyllgor DEIB yn flynyddol.<br>Adrodd ar y cynllun gweithredu graddio Coch Melyn Gwyrdd i DEIB bob tymor ac i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd yn flynyddol.<br>Parhau i adolygu a gwella cynrychiolaeth amrywiaeth hil ar bwyllgorau gwneud penderfyniadau. |
| 1.5 | Gwella casglu, dadansoddi ac adrodd data er mwyn gallu cynllunio gwaith cydraddoldeb hiliol strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn perthynas â phoblogaethau myfyrwyr a staff | Adolygu'r data sydd ar gael, gan ddefnyddio profiad PDC, a datblygu cynlluniau data.<br>Gwella cydweithio a chefnogaeth gyda thîm cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant PDC. |